**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 17 Ebrill 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Alyx Baharie | CGGA |
| Moawia Bin-Sufyan | Care after Combat |
| Ruth Birch | Fighting with Pride |
| Pat Dunmore | Cyngor ar Bopeth |
| Asgell-gomander Phil Flower | Cadetiaid y Lleng Brydeinig Frenhinol/yr RAF |
| Asgell-gomander Steve Fry | Dirprwy Lefftenant/Milwr yr Gefn yr RAF |
| Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 Rob Govier | HMS Cambria |
| Debbie Hamer | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jonathan Hinkin | Prifysgol Abertawe |
| Y Cyng. Elliott King | Cyngor Abertawe |
| Sarah Mallaghan | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Julian North | Help for Heroes |
| Emma Reeves | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol |
| Paul Smith | Veterans RV |
| Steve Spill | BIPBA |
| Stephen Sullivan | Hafal |
| Capten Huw Williams | Catrawd Gymreig RLC 157 |
| Victoria Williams | GIG Cymru i Gyn-filwyr |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| David Price Deer | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Glyn Davies, Bethan Dennedy, Louise Fleet, Wayne Jenkins, Lynn Martin, Fiona Pickwell a Neil Tomlin

---

## 24 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

**25 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

**26 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Nid oedd Bethan Dennedy yn bresennol, felly anfonir diweddariad drwy e-bost.

**27 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Y Fyddin

Amlinellodd Huw Williams y meysydd canlynol ac adroddodd yn eu cylch:

Mae Catrawd 157, Sgwadron 223 yn parhau i ddarparu cymorth i lawer o asiantaethau yn yr ardal leol ac mae'r ffaith y gofynnir i ni gefnogi digwyddiadau fel diwrnodau agored a darparu sesiynau gweithgareddau i elusennau a grwpiau lleol yn beth da.

Mae'r digwyddiadau lleol yr ydym wedi'u cefnogi fwyaf diweddar yn cynnwys HarMINDise, sef menter sy'n dod â phobl nad ydynt yn Brydeinig ynghyd i adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd.
Mae un o'r digwyddiadau nesaf yr ydym yn ei gefnogi yn cynnwys hwb Cyn-filwyr Abertawe ar 29 Ebrill yn ystod ei ddiwrnod agored.

Y bore yma, cynhaliwyd y Cyfarfod Cymorth Milwrol diweddaraf, lle edrychom ar ddigwyddiadau sydd i ddod. Dyma lle'r ydym yn edrych ar y cynllun i gefnogi digwyddiadau yn y dyfodol. Trafodwyd y canlynol:

- Mis y Plentyn Milwrol – Ebrill 23. Cynhelir digwyddiad yng Nghanolfan y Fyddin wrth Gefn y Grange ar gyfer plant milwyr ar 25 Ebrill.
- Coroni'r Brenin – cynhelir digwyddiadau lleol ar 30 Ebrill yng Nghastell-nedd ac Abertawe. Dosbarthwyd gwahoddiadau, ond mae yna lefydd ar gael i gyn-filwyr gael mynychu. Os hoffech gael gwahoddiad, cysylltwch â mi: huw.williams830@mod.gov.uk
- Diwrnod/wythnos y Lluoedd Arfog – 19-25 Mehefin:
- 19 Mehefin yng Nghastell-nedd a Phort Talbot - yn dechrau am 10:30 yn yr adeiladau dinesig. Gofynnir os oes unrhyw gyn-filwyr sy'n gallu mynychu eu bod yn gwneud hynny, os gwelwch yn dda, i roi hwb i'r niferoedd.
- Dydd Sadwrn 24 Mehefin yw dyddiad y digwyddiad yn Abertawe. Gofynnir i'r rhai sydd am gymryd rhan yng ngwasanaeth dydd Lluoedd Arfog Abertawe a chodi'r faner fod yn Neuadd y Ddinas erbyn 10:30 ar fore 24 Mehefin fan bellaf. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 11:00. Byddai'n wych gweld cynifer o gyn-filwyr yno ag sy'n bosib.
- Sioe Awyr Genedlaethol Cymru – 30 Mehefin–2 Gorffennaf. Mae llawer yn cael ei gynllunio ar gyfer y digwyddiad hwn ac mae'r pentref milwrol yn tyfu'n sylweddol.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau lleol er mwyn eu briffio ar yr hyn y mae Gwarchodfa'r Fyddin yn ei olygu a beth yw ein rôl. Mae hyn er mwyn egluro'n rôl. Cysylltwch â mi a defnyddiwch ni os ydych chi'n meddwl y gallwn ychwanegu gwerth at ddigwyddiadau a chwrdd â grwpiau, etc.

RAF

Amlinellodd yr Asgell-gomander Steve Fry ei fod yn rhan o Sgwadron 614 yng Nghaerdydd ond bod milwyr wrth gefn yn weithgar mewn rolau cymorth ledled y DU a hefyd ar hyn o bryd yng Nghyprus ac Ynysoedd Falkland.

Amlinellodd waith ailstrwythuro parhaus y 29 sgwadron wrth gefn presennol ar draws y wlad i 4 prif adain ledled y wlad a fydd yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddiant.

Y Llynges

Rhoddodd Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 Rob Govier ddiweddariad o'i wasanaeth a oedd yn cynnwys paratoi cymorth i'r digwyddiadau mawr sydd ar ddod fel yr amlinellir uchod.

Nododd y pe gellid rhoi rhybydd ymhellach ymlaen llaw ar gyfer digwyddiadau a sefydliadau y mae pobl yn dymuno i'w unedau fod yn rhan ohonynt a'u cynorthwyo y byddai'n well, oherwydd bod y dyddiadur yn llenwi fisoedd lawer ymlaen llaw oherwydd y nifer fechan o bersonél sydd ar gael.

Amlinellodd ei fod yn debygol y bydd presenoldeb o'i wasanaeth yn seremoni codi'r faner yn Abertawe'n cael ei effeithio gan ei fod yr un diwrnod â digwyddiad cenedlaethol Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghasnewydd.

Amlinellodd fod llong gyswllt Abertawe, HMS Scott wedi'i angori yn Gibraltar gan nad yw'n weithredol ar hyn o bryd.

## 28 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.

Dywedodd Steve Spill y cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Fforwm Lluoedd Arfog BIPBA ar 8 Chwefror ac roedd llawer o bobl yn bresennol ac roedd yr agenda yn ymdrin ag ystod eang o bynciau.

Rhoddodd Cadeirydd newydd y bwrdd gyflwyniad ardderchog sy'n ymwneud â nifer y clybiau cymorth iechyd meddwl sy'n bodoli yn yr ardal, a sut mae rhai o'r clybiau hyn sy'n cynnwys cyn-filwyr yn rhoi cymorth ac yn cefnogi pobl nad ydynt yn filwrol o bob cwr o'r byd sy'n cael eu heffeithio a'u dadleoli gan ryfel.

Cafwyd diweddariad hefyd yn y cyfarfod ar y gwaith rhagorol a wneir gan Peter McCarthy a'i dîm yn y ganolfan aelodau artiffisial yn Ysbyty Treforys, sy'n rhoi cefnogaeth wych i gyn-filwyr a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Amlinellodd fod y bwrdd yn parhau i weithio tuag at sicrhau statws cyflogwr aur yn y dyfodol. Effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar y cynnydd tuag at gyflawni hyn.

Amlinellodd fod Bwrdd Iechyd Bae Abertawe'n bwriadu cynnal bore coffi i gyn-filwyr i nodi digwyddiad wythnos y Lluoedd Arfog. Bydd yn sesiwn galw heibio ar gyfer unrhyw gyn-filwyr sy'n cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd sy'n gallu bod yn bresennol. Mae gwaith yn parhau er mwyn ymchwilio nifer cywir y cyn-filwyr a gyflogir gan y Bwrdd a'i gadarnhau.

Gwasanaethodd Prif Swyddog Gweithredu newydd y Bwrdd a benodwyd yn ddiweddar yn yr RAF yn y gorffennol.

Dywedodd Victoria Williams fod GIG Cymru i Gyn-filwyr wedi derbyn 32 o bobl a gyfeiriwyd at eu gwasanaeth dros y 3 mis diwethaf, ac mae 17 ohonynt wedi'u cofrestru. Yn anffodus mae un therapydd yn parhau i fod yn angen ar y gwasanaeth ar hyn o bryd, felly mae hyn yn amlwg wedi cael effaith ar yr amser triniaeth, sydd bellach yn anffodus tua 6 mis. Mae 21 o gyn-filwyr yn aros am therapi ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd y swydd wag yn cael ei hysbysebu'n fuan.

Bydd hi'n asesu cyn-filwyr yng Ngharchar Abertawe'n fuan.

Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Lluoedd Arfog BIPBA ym mis Mehefin, ac mae croeso i bob aelod o'r panel fod yn bresennol.

## 29 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.

Amlinellodd Emma Reeves fod gan ei sefydliad bellach dîm llawn o staff, gyda 5 swyddog yn gweithio ar draws Cymru gyfan.

Mae'n gweithio tuag at ddarparu hyfforddiant DPP i ysgolion ac adrannau addysg.

Mae mis Ebrill, sef Mis y Plentyn Milwrol, yn gyfnod hynod brysur i'r gwasanaeth ac roedd hi'n edrych ymlaen yn fawr at y digwyddiad yn y Grange yn West Cross yr wythnos nesaf, a fydd yn cynnwys grwpiau a sefydliadau amrywiol.

Mae hi'n gweithio gyda gwahanol ysgolion yn Abertawe i'w helpu i weithio tuag at gyflawni Gwobr Ysgolion sy'n Gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog Cymru a chynnig cefnogaeth i ysgolion eraill sydd wedi dynodi plant milwyr fel disgyblion.

Manylodd fod y grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop bellach wedi cau ond bod Rhaglen Cefnogi Disgyblion y Lluoedd Arfog newydd sydd ar gael i gefnogi plant milwyr ar hyd eu llwybrau addysgol.

Dosberthir rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod drwy e-bost.

## 30 Ymladd Â Balchder.

Diolchodd Ruth Birch i'r panel am y gwahoddiad i fynychu ac amlinellodd mai dim ond fel elusen y sefydlwyd ei sefydliad 3 blynedd yn ôl.

Elusen LHDT+ yw Fighting with Pride sydd â'r nod o gefnogi Cyn-filwyr LHDT+, personél sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, yn enwedig y rheini a gafodd eu heffeithio gan y 'gwaharddiad pobl hoyw', a godwyd yn y pen draw ar 12 Ionawr 2000. Cyn

hynny, cafodd miloedd o bersonél LHDT+ a oedd yn gwasanaethu eu tynnu neu eu gorfodi i adael gwasanaeth, ar ôl gwasanaethu gyda balchder. Yn y blynyddoedd i ddod, ein nod yw adfer y cyfamod milwrol a dod â'r gymuned hon yn ôl i'r teulu milwrol.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi cyn-filwyr i feithrin gallu ar gyfer cymorth i gyn-filwyr LHDT+, i gydnabod eu gwasanaeth ac i helpu i ddatrys yr heriau maen nhw'n eu hwynebu yn eu bywydau y tu hwnt i wasanaeth milwrol.

Dywedodd fod ei helusen wedi sefydlu Pride in Veterans Standard (PiVS) y gall sefydliadau weithio tuag ati.

Nod safon PiVS yw gwneud i'r gymuned gyn-filwr gyfan deimlo'n hyderus wrth gael mynediad at ei gwasanaethau a'i chefnogaeth, gan wybod y gellir sicrhau bod cyn-filwyr yn gallu cael sicrwydd y byddant yn cael eu trin ag urddas, parch a dealltwriaeth.

Amlinellodd y byddai ganddi stondin yn nigwyddiad Pride Abertawe ar ddiwedd mis Ebrill, ac edrychodd ymlaen at weld pobl yno ac yng nghyfarfodydd y Panel hwn yn y dyfodol.

Nododd Victoria Williams yr hoffai i Ruth fynychu cyfarfod Fforwm Lluoedd Arfog BIPBA yn y dyfodol.

**31 Veter Aid.**

Nid oedd Tony Strutt yn bresennol, felly gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf.

**32 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

Cadetiaid y Llu Awyr Brenhinol/ Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Amlinellodd Phil Flower fod gan y Lleng Brydeinig Frenhinol nifer fawr o ddigwyddiadau ar y gweill eleni yn Abertawe o gwmpas cyfnod y Cofio.

Amlinellodd fod grŵp mawr o gyn-filwyr a llawer o wahanol sefydliadau a grwpiau'n rhan o'r gwaith o gyflwyno'r ystod amrywiol o ddigwyddiadau.

Manylodd y codwyd dros £80,000 yn Abertawe yn ystod Apêl y Pabi yn 2022, a oedd yn wych ac a oedd bron wedi cyrraedd lefelau cyn COVID, a diolchodd am haelioni'r cyhoedd yn Abertawe.

Nododd y byddai'n dosbarthu rhestr gyflawn o'r digwyddiadau'n dilyn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

**Cadeirydd**